**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/3213/23

Y Gw. Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ceisio mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr (ac ansawdd aer) sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ledled Cymru. Mae Rheoliadau 2021 yn cynnwys terfyn blynyddol ar faint o nitrogen mewn tail da byw y caniateir ei ddodi (boed yn uniongyrchol gan dda byw neu drwy ei daenu) ar ddaliad. Y terfyn blynyddol sydd wedi cael ei osod yw 170kg o nitrogen yr hectar (y terfyn 170kg) fydd yn cael ei gymhwyso fel cyfartaledd ar draws y daliad. Er bod y terfyn hwn eisoes yn berthnasol i ddaliadau a oedd gynt mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ), ni ddaw'n berthnasol tan 1 Ionawr 2024 i ddaliadau nad oeddent mewn NVZ cyn hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y Rheoliadau hyn yw caniatáu i feddianwyr daliadau, neu ran o ddaliadau, nad oeddent gynt o fewn NVZ, lle mae o leiaf 80% o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi'i hau â glaswellt, barhau i ddodi (boed yn uniongyrchol gan dda byw neu drwy ei daenu) dros 170kg o nitrogen yr hectar mewn tail da byw sy'n pori, ar y daliad yn ystod blwyddyn galendr 2024, hyd at uchafswm o 250kg yr hectar. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau, pan fydd symiau o'r fath yn cael eu dodi, bod yn rhaid i feddianwyr gydymffurfio â gofynion rheoli maetholion ychwanegol i liniaru unrhyw effaith amgylcheddol bosibl. Bydd hynny'n cynnwys hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o'u bwriad i ddodi dros 170kg o nitrogen yr hectar ar eu daliadau. Ar gyfer blwyddyn galendr 2024, mae'r Rheoliadau hefyd yn mynnu bod meddianwyr daliadau cymwys yn cyfyngu ar gyfanswm y nitrogen mewn tail da byw a ddodir ar eu daliad. Sef, na ddodir mwy na 170kg yr hectar o nitrogen mewn tail o dda byw nad ydynt yn pori, a 250kg yr hectar mewn tail o dda byw sy'n pori. Pan fydd meddiannydd daliad cymwys yn dodi tail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori ar y daliad, rhaid addasu'r swm a ddodir o'r ddau ar sail pro-rata. Bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn rhoi eglurder ar yr uchod, ac yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023.

Y rheswm dros beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na fydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 yn dod i rym ar neu cyn 31 Rhagfyr 2023, yna bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2024 heb roi'r eglurder, hygyrchedd na'r sicrwydd cyfreithiol mwyaf i ddefnyddwyr terfynol ynghylch dodi cyfuniad o dail da byw sy'n pori a thail da byw nad ydynt yn pori.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**